Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

www.casgliadywerincymru.co.uk
www.peoplescollectionwales.co.uk

## Gweithgaredd Addysgol

Creu gweithgaredd addysgol ar gyfer eich myfyrwyr wrth ddefnyddio gwefan Casgliad Y Werin Cymru

Cyfnod Allweddol neu Lefel **Cyfnod Allweddol 2**

Testun **Hanes yr 20fed Ganrif, Yr Ail Ryfel Byd, Caerdydd**

Teitl **Ymchwilio i Gymru adeg y Rhyfel – Caerdydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd**

Awdur **Glamorgan Archives & Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

## Testun Rhagarweiniol

### Sut oedd bywyd bob dydd yng Nghaerdydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

**Bydd yr adnodd dysgu hwn yn helpu'r dysgwr i ateb y cwestiwn pwysig hwn. Drwy ymchwilio i gopïau digidol o brif ffynonellau yn Archifau Morgannwg, bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o fywyd bob dydd yng Nghaerdydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bydd pob tasg ymchwilio fer yn gysylltiedig â chasgliad o ffynonellau digidol cynradd yng Nghasgliad y Werin Cymru ac fe gyflwynir cwestiwn pwysig am agwedd arbennig ar fywyd bob dydd yn ystod y rhyfel. Mae nodiadau i gyd-fynd â'r 'prif ffynonellau' i gynorthwyo'r disgyblion gyda phob ymchwiliad. I ddechrau, bydd y disgyblion yn penderfynu ar ba ddyddiad y dechreuodd y rhyfel, yna, byddan nhw'n ymchwilio i gyrchoedd awyr, pobl yn gorfod symud o'u cynefin, dogni a Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop. Mae'r nodiadau cymorth i athrawon yn rhestru'r amcanion dysgu, yn rhoi gwybodaeth gefndir ar gyfer pob tasg ymchwilio a syniadau ar gyfer gweithgareddau dysgu ychwanegol sy'n addas ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2.**

# CONTENT


| | |
|---|---|
| **Amcanion Dysgu** | Tudalen 3 |
| **Tasgau Ymchwilio i ddisgyblion**<br>Dechrau'r Ail Ryfel Byd<br>Cyrchoedd Awyr<br>Faciwîs<br>Dogni<br>Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop | Tudalennau 4-8 |
| **Gweithgareddau Ychwanegol**<br>Dechrau'r Ail Ryfel Byd<br>Cyrchoedd Awyr<br>Faciwîs<br>Dogni<br>Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop | Tudalennau 9-13 |
| **Nodiadau i Athrawon**<br>Dechrau'r Ail Ryfel Byd<br>Cyrchoedd Awyr<br>Faciwîs<br>Dogni<br>Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop | Tudalennau 14-19 |
| **Rhagor o waith Darllen** | Tudalen 20 |

# Amcanion Dysgu

## Learners will understand:

- How WW2 affected the daily life of people in Cardiff and in Wales:
  The outbreak of WW2
  Air Raids
  Rationing
  Evacuation
  VE Day

## Bydd y dysgwyr yn gallu:

### Hanes

- Dewis, cofnodi a threfnu gwybodaeth am ddigwyddiadau hanesyddol.
- Cynllunio'r dull ymchwilio i'w ddefnyddio i ateb y cwestiynau allweddol.
- Defnyddio ystod o ffynonellau, gan gynnwys Casgliad y Werin Cymru, i chwilio am wybodaeth.
- Gofyn ac ateb cwestiynau perthnasol am y gorffennol.

### Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

- Cyfathrebu syniadau a gwybodaeth i ystod o gynulleidfaoedd ac mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.
- Gwrando ar syniadau pobl eraill ac ymateb iddynt.
- Cyfrannu at drafodaethau a chyflwyniadau.
- Trefnu gwybodaeth gan ddefnyddio strwythur sy'n briodol ar gyfer pwrpas a ffocws y dasg.
- Dethol, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth yn briodol.
- Defnyddio ystod o strategaethau darllen priodol i wneud ystyr o destunau.
- Adnabod y prif syniadau, digwyddiadau a syniadau ategol yn y testunau.

# Sgiliau

### Cyfathrebu
- Datblygu gwybodaeth a syniadau.
- Cyflwyno gwybodaeth a syniadau.
- Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth gan ddefnyddio strategaethau darllen.
- Trefnu syniadau a gwybodaeth.
- Cyfleu gwybodaeth.

### TGCh
- Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.
- Dod o hyd i wybodaeth addas yng Nghasgliad y Werin Cymru.

### Meddwl
- Gofyn cwestiynau.
- Defnyddio sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol
- Cywain gwybodaeth.
- Ystyried tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau.

# Tasg 1

**Pa bryd y dechreuodd yr Ail Ryfel Byd ?**

**Astudiwch gasgliad 'Dechrau'r Ail Ryfel Byd yng Nghaerdydd' i gael gwybod yr ateb**


**Trafodaeth**
Beth ddigwyddodd yn eich ysgol chi tybed pan ddechreuodd y rhyfel?
Sut roedd plant ysgol yn teimlo am ddechrau'r Ail Ryfel Byd?

## Casgliad ar gyfer tasg 1

Cliciwch yma am gasgliad 'Dechrau'r Ail Ryfel Byd yng Nghaerdydd'

# Defnyddio Prif Ffynonellau

## Edrych ar brif ffynonellau – *Llyfr log ysgol*


Sept. 4. School closed according to instructions owing to outbreak of war.
" 11th School reopened All the staff present.

## Beth yw llyfr log ysgol?

Mae'n debyg iawn i ddyddiadur. Mae'r awdur yn cofnodi unrhyw wybodaeth ddiddorol sy'n digwydd yn yr ysgol. Roedd ysgolion yr oedd y llywodraeth yn talu amdanyn nhw'n gorfod cadw cofnod o'r hyn a oedd yn digwydd yn yr ysgol.

## Pa wybodaeth y gallwn ni ei chael o lyfr log ysgol?

Nid yw pob llyfr log yn cynnwys yr un wybodaeth. Mae rhai yn cofnodi trefniadau bob dydd yr ysgol, a dim mwy na hynny. Mae eraill yn cadw gwybodaeth ddiddorol am ddisgyblion a'u bywydau. Bydd y rhan fwyaf yn cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb a digwyddiadau lleol.

Mae'r dyfyniad uchod o lyfr log ysgol yn dweud wrthym fod yr ysgol hon yng Nghymru ar gau ar 4 Medi 1939 **'yn unol â'r cyfarwyddiadau'**. Agorodd yr ysgol eto ar 11 Medi 1939 gyda'r **'holl staff yn bresennol'.**

# Tasg 2

**Sut beth oedd cyrch awyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd?**
**Astudiwch 'Casgliad cyrchoedd awyr Caerdydd'. Defnyddiwch y casgliad i gael gwybod beth oedd yn digwydd yn ystod cyrch awyr. Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch ymchwil.**

Beth oedd yn digwydd yn ystod cyrch awyr?
Beth oedd yn rhaid i blant ei wneud yn ystod cyrch awyr?
Pa reolau yr oedd yn rhaid i bawb eu dilyn ystod y cyrchoedd awyr a phwy oedd yn gwneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y rheolau?
Beth ddigwyddodd i rai o adeiladau Caerdydd yn ystod y cyrchoedd awyr?

## Casgliad ar gyfer tasg 2

Cliciwch yma am gasgliad 'Casgliad cyrchoedd awyr Caerdydd'

# Defnyddio Prif Ffynonellau

## Edrych ar brif ffynhonnell – Ffotograff






### Beth yw ffotograff?

Llun sy'n cael ei greu gyda chamera yw ffotograff. Erbyn hyn rydym i gyd yn gyfarwydd â chael tynnu ein llun a byddwn yn defnyddio camerâu digidol a ffonau symudol i dynnu lluniau. Mae'n bosibl gweld y ffotograffau **digidol** yn hawdd a'u hargraffu ar bapur. Yn y 1930au a'r 1940au, roedd gan lai o bobl o lawer gamera ac nid oedd camerâu **digidol** ar gael. Roedd ffotograffau'n cael eu tynnu gan ddefnyddio camerâu **ffilm** ac roedd yn rhaid prosesu'r **ffilm** drwy ddefnyddio cemegau arbennig cyn i chi allu gweld y ddogfen. Mae'n beth da cofio, er bod ffilm liw ar gael yn ystod hanner cyntaf yr 20fed ganrif, ei fod yn ddrud iawn. Felly, lluniau du a gwyn yw'r rhan fwyaf o'r ffotograffau o'r Ail Ryfel Byd yn yr archifau a'r swyddfeydd cofnodion.

### Pa wybodaeth y gallwn ni ei chael o ffotograffau?

Mae ffotograffau'n gallu rhoi llawer o wybodaeth i ni am ein hardal leol ac maen nhw'n gallu ein helpu i greu llun o'r gorffennol. Maen nhw'n gallu dangos i ni sut olwg oedd ar lefydd a phobl mewn cyfnod arbennig mewn hanes, gan roi tystiolaeth i ni am y pethau sydd wedi newid a'r pethau sydd wedi aros yr un fath. Mae ffotograffau ar eu pen eu hunain yn gallu rhoi llawer o wybodaeth i ni a gallwn ni gyfoethogi'r dystiolaeth drwy ddefnyddio deunyddiau archif eraill e.e. map safleoedd bomio'r cyrchoedd awyr (BC_FS_4_F) yng 'Nghasgliad cyrchoedd awyr Caerdydd' ar wefan Casgliad y Werin Cymru.

**Cwestiynau defnyddiol i feddwl amdanynt**

Pa fathau o arogleuon a synau y gallwch eu dychmygu drwy edrych ar y ffotograffau'n unig?
Sut mae'r bobl yn y ffotograffau yn teimlo tybed?
Beth sydd ar feddwl y bobl yn y ffotograffau tybed?
- What do you think the people in the photographs are thinking?

## Tasg 3

### Beth yw ystyr 'faciwîs'?

**Astudiwch y casgliad** **'Symud pobl allan o Gaerdydd'**. **Ydych chi'n gwybod beth yw ystyr y gair 'faciwî?**

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch ymchwil.**

Pam y cafodd plant eu symud allan o Gaerdydd yn ystod yr Ail Ryfel byd?


I ble y cafodd plant eu symud yn ystod yr Ail Ryfel byd?

### Casgliad ar gyfer tasg 3

Cliciwch yma am gasgliad 'Symud pobl allan o Gaerdydd'

## Defnyddio Prif Ffynonellau

### Edrych ar brif ffynhonnell – Llythyr


are being evacuated from

### Beth yw llythyr?

Math arbennig iawn o ffynhonnell hanesyddol yw llythyr. Mae'n bwysig cofio bod llythyrau yn aml yn cael eu hysgrifennu at gyfer cynulleidfa 'breifat'. Mae llythyr hefyd yn cael ei ysgrifennu mewn ffordd sy'n gwahodd deialog, yn yr un ffordd ag y byddai e-bost neu gofnod ar Facebook heddiw.

### Pa wybodaeth y gallwn ni ei chael o lythyr?

Yn aml iawn, bydd llythyrau personol yn cynnig gwybodaeth i haneswyr nad yw ar gael mewn dogfennau swyddogol. Drwy edrych ar lythyr, gallwn ddysgu o brofiadau uniongyrchol unigolion, maen nhw'n cynnig profiadau **personol** o ddigwyddiadau hanesyddol. Er enghraifft, sut oedd bywyd bob dydd mewn gwirionedd? Beth oedd teimladau pobl?

Dyma ychydig o gwestiynau defnyddiol i'w gofyn wrth ddefnyddio llythyr yn dystiolaeth hanesyddol. Bydd y rhain yn help i chi chwilio am dystiolaeth am yr awdur, y sawl sy'n derbyn y llythyr a hanes y llythyr rydych chi'n ei astudio.

**Sut olwg sydd ar y llythyr a beth mae hyn yn gallu ei ddweud wrthym am yr awdur, y sawl sy'n derbyn y llythyr a'r cyd-destun hanesyddol?**

- Pa fath o bapur, inc a phin sydd wedi cael eu defnyddio?
- Beth am y llawysgrifen a beth mae hynny'n gallu ei ddweud wrthym am yr awdur?

**Arddull ac ansawdd yr ysgrifennu. Beth maen nhw'n gallu ei ddweud wrthym am yr awdur, y sawl sy'n derbyn y llythyr a'r cyd-destun hanesyddol?**

- Pa fath o arddull ysgrifennu sy'n cael ei defnyddio, ffurfiol neu anffurfiol?
- A oes unrhyw gamgymeriadau sillafu? Pam?
- A oes unrhyw gamgymeriadau gramadegol?

**Y Stori. Beth maen nhw'n gallu ei ddweud wrthym am yr awdur, y sawl sy'n derbyn y llythyr a'r cyd-destun hanesyddol?**

- Pa bryd yr ysgrifennwyd y llythyr?
- Pa stori mae'r awdur yn ei adrodd ac o ba safbwynt?
- Sut mae'r llythyr yn berthnasol i ffynonellau hanesyddol eraill o'r un cyfnod?

# Tasg 4

**Beth allwch chi ei ddarganfod am ddogni?**
**Astudiwch 'Gasgliad dogni Caerdydd yn yr Ail Ryfel Byd'**

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch ymchwil.**
Os nad oedd cymaint o fwyd ar gael ag arfer, beth fyddai wedi digwydd?
Pa fath o fwydydd oedd yn cael eu dogni ?
Beth yw ystyr 'Palu dros Fuddugoliaeth'?
Beth yw ystyr 'Gwneud y tro a thrwsio'?


## Casgliad ar gyfer tasg 4

Cliciwch yma am gasgliad 'Gasgliad dogni Caerdydd yn yr Ail Ryfel Byd'


# Defnyddio Prif Ffynonellau

## Edrych ar brif ffynhonnell – *Taflen wybodaeth y llywodraeth*








### Beth yw taflen gan y llywodraeth?

Math arbennig iawn o ffynhonnell hanesyddol yw taflen gan y llywodraeth. Mae'n bwysig cofio bod y taflenni hyn wedi'u hysgrifennu ar gyfer cynulleidfa **gyhoeddus**. Maen nhw'n disgrifio beth mae'r llywodraeth am i'r cyhoedd ei wneud neu ei feddwl ar adeg benodol.

### Pa wybodaeth y gallwn ei chasglu o un o daflenni'r llywodraeth?

Mae taflenni gwybodaeth gan y Llywodraeth yn cynnig gwybodaeth i haneswyr am negeseuon **cyhoeddus** llywodraethau sydd mewn grym ar adegau penodol mewn hanes. Drwy edrych ar daflenni'r llywodraeth, gallwn ddysgu sut mae llywodraethau'r gorffennol wedi ceisio datrys y problemau yr oedden nhw'n eu hwynebu. Maen nhw hefyd yn dweud wrthym beth yr oedd llywodraethau'r gorffennol eisiau i'r cyhoedd feddwl a'r hyn yr oedden nhw eisiau i'r cyhoedd ei wneud.

Dyma ychydig o gwestiynau defnyddiol i'w gofyn wrth ddefnyddio taflenni gwybodaeth y llywodraeth yn dystiolaeth hanesyddol. Bydd y cwestiynau'n help i chi chwilio am dystiolaeth am y negeseuon sydd yn nhaflenni gwybodaeth y llywodraeth.

**Sut olwg sydd ar daflen y llywodraeth a beth mae hynny'n gallu ei ddweud wrthym am yr awdur?**
- Pa fath o bapur ac inc sydd wedi cael eu defnyddio?
- Sut olwg sydd ar yr ysgrifen a'r lluniau a beth mae'r rheini'n gallu ei ddweud wrthym am yr awdur?

**Arddull ysgrifennu. Beth maen nhw'n gallu ei ddweud wrthym am yr awdur ac am sut mae'r awdur am siarad â'r cyhoedd?**
- Pa fath o arddull ysgrifennu sy'n cael ei ddefnyddio – ffurfiol neu anffurfiol?
- Beth yw tôn y daflen, cyfeillgar neu anghyfeillgar?

**Y neges. Beth maen nhw'n gallu ei ddweud wrthym am yr awdur, y sawl sy'n derbyn y llythyr a'r cyd-destun hanesyddol?**
- Pa bryd y cafodd y daflen ei hysgrifennu?
- Pa neges mae'r awdur yn ei rhoi i ni ac o ba safbwynt?
- Sut mae'r daflen yn berthnasol i ffynonellau hanesyddol eraill o'r un cyfnod?

# Tasg 5

**Beth oedd 'Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop' a sut y cafodd ei ddathlu?**
Astudiwch **'Casgliad Dathlu Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop Caerdydd'**

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch ymchwil.**
Allwch chi weld beth oedd diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop?
Beth ddigwyddodd mewn ysgolion ar ddiwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop?
Beth fyddech chi'n meddwl wnaeth pobl ei fwyta i ddathlu?

## Casgliad ar gyfer tasg 5

Cliciwch yma am gasgliad 'Casgliad Dathlu Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop Caerdydd'

***Da iawn chi, rydych wedi gorffen eich ymchwil ac wedi casglu llawer o wybodaeth am yr Ail Ryfel Byd!***

## Dyma'ch cyfle chi i gael gwybod rhagor.

## Pa gwestiynau newydd fyddech chi'n hoffi cael atebion iddyn nhw?

**Gallwch wneud rhagor o ymchwil ar lein, mewn archifau, mewn swyddfeydd cofnodion lleol ac mewn amgueddfeydd.**

**I gael gwybod rhagor ar lein:**
www.casgliadywerincymru.co.uk/collections/377425
www.bbc.co.uk/wales/history/sites/themes/ww2.shtml (Saesneg yn unig)

**I gael gwybod ymhle mae'ch archifdy neu'ch swyddfa gofnodion agosaf, dilynwch y ddolen:**
http://www.archiveswales.org.uk/

**I gael gwybod ymhle mae'ch amgueddfa agosaf, dilynwch y ddolen:**
www.culture24.org.uk/places+to+go/wales (Saesneg yn unig)

# Task 1

## Dechrau'r Ail Ryfel Byd

## GWEITHGAREDDAU DYSGU YCHWANEGOL

### *Trafodaeth*

Beth ddigwyddodd yn eich ysgol chi pan ddechreuodd y rhyfel?
Sut roedd plant ysgol yn teimlo am ddechrau'r Ail Ryfel Byd?

### *Ysgrifennu cofnod yn llyfr log yr ysgol – bryd hynny a nawr*

***Chwiliwch am ragor o enghreifftiau o lyfrau log ysgolion yng Nghymru ar wefan Casgliad y Werin Cymru.***

Ar ôl astudio'r cofnodion yn y llyfrau log, ysgrifennwch gyfres o gofnodion ar gyfer llyfr log eich ysgol am ddigwyddiad sydd wedi effeithio ar eich ysgol chi ac ar wlad arall yn y Byd.

**Gallech gynnwys y wybodaeth hon:**

- **Dyddiad y digwyddiad.**
- **Y gwledydd eraill yn y byd yr effeithiodd y digwyddiad arnyn nhw.**
- **Beth ddigwyddodd yn eich ysgol chi.**
- **Sut roeddech yn teimlo am y digwyddiad.**
- **Ar bwy yr effeithiodd y digwyddiad.**

Syniadau am ddigwyddiadau

- Ein hysgol ni a'r Gemau Olympaidd.
- Ein hysgol ni a thywydd eithafol.
- Ein hysgol ni a diwrnodau elusen .

### *Dyma ychydig o weithgareddau dilynol eraill posibl:*

- Ysgrifennu llythyr at gyfaill post sy’n blentyn mewn gwlad arall ac y mae digwyddiadau tebyg wedi effeithio arno – llythyr sy’n sôn am y digwyddiad sy'n cael ei ddisgrifio yn y cofnod eich llyfr log.
- Ysgrifennu a pherfformio cyhoeddiad ar y radio, yn disgrifio'r digwyddiad pwysig rydych wedi'i ddisgrifio yng nghofnod llyfr log eich ysgol. Chwaraewch gyhoeddiad Neville Chamberlain yn datgan fod Prydain yn mynd i ryfel yn fan cychwyn.
-

**Gwrandewch ar Neville Chamberlain yn cyhoeddi bod Prydain wedi mynd i ryfel drwy ddilyn y ddolen hon (Saesneg yn unig):**
http://www.bbc.co.uk/schoolradio/subjects/history/ww2clips/speeches/chamberlain_declares_war

### The outbreak of World War 2 - External links and further reading

***More introductory information about World War 2*** **:**
**http://www.bbc.co.uk/schools/primaryhistory/world_war2/world_at_war/**

***More detailed information about the lead up to the outbreak of World War 2*** **:**
**http://www.bbc.co.uk/schools/gcsebitesize/history/mwh/ir1/**

# Tasg 2
# Cyrchoedd Awyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd

## GWEITHGAREDDAU DYSGU YCHWANEGOL

Ewch i'ch archifdy lleol ac ysgrifennwch erthygl papur newydd **wedi'i sensora** am gyrch awyr neu ddigwyddiad cysylltiedig â chyrch awyr yn eich ardal leol.

## Cofiwch, nid oes rhaid i hwn fod yn gyrch awyr go iawn.

Defnyddiwch y casgliadau am gyrchoedd awyr ar wefan Casgliad y Werin Cymru a’r prif ffynonellau o'ch archifdy lleol i ysgrifennu erthygl papur newydd. Cofiwch fod cynnyrch y cyfryngau'n cael ei sensora er mwyn cynnal ysbryd ar y ffrynt cartref. Felly, bydd angen i chi feddwl yn bositif!

Bydd angen y canlynol arnoch er mwyn ysgrifennu'r erthygl:

- Gwybodaeth gyffredinol am gyrchoedd awyr ym Mhrydain ac yng Nghymru ar wefan Casgliad y Werin Cymru ac mewn ffynonellau eraill ar y we sydd wedi'u rhestru yn yr adnodd dysgu hwn.
- Gwybodaeth benodol am gyrchoedd awyr yn eich ardal chi ar wefan
- Casgliad y Werin Cymru a'ch archif leol.
- Copïau o'ch papur newydd lleol yn ystod y rhyfel o'ch archifdy lleol.

## *Dyma ychydig o weithgareddau dilynol eraill posibl:*

Gweithgaredd chwarae rôl lle y bydd grwpiau bach yn eu tro yn chwarae rhan Wardeniaid Cyrchoedd Awyr sy'n ymweld â'ch ysgol. Bydd angen i chi baratoi cyflwyniad yn defnyddio'r deunydd o'r 'casgliadau am y cyrchoedd awyr' ar wefan Casgliad y Werin Cymru. A chithau'n Wardeniaid Cyrchoedd Awyr, byddech yn esbonio wrth weddill y dosbarth pa gamau y dylen nhw eu cymryd yn ystod cyrch awyr. ***Gallech hefyd gysylltu â'ch amgueddfa leol a gweld a oes ganddyn nhw focs trin a thrafod sy'n cynnwys propiau'r Ail Ryfel Byd.***

Gwrandewch ar sŵn corn cyrch awyr drwy ddilyn y ddolen hon (Saesneg yn unig):
www.bbc.co.uk/schoolradio/subjects/history/ww2clips/sounds/air_raid_siren_audio

### Cyrchoedd awyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd – Dolenni allanol a rhagor o waith darllen

***Rhagor o luniau sy'n gysylltiedig â wardeniaid cyrchoedd awyr:***
www.casgliadywerincymru.co.uk/collections/376967
***Rhagor o wybodaeth am gyrchoedd awyr yng Nghymru*** **(Saesneg yn unig):**
www.bbc.co.uk/wales/history/sites/themes/periods/ww2_bombing.shtml
***Rhagor o wybodaeth am gyrchoedd awyr yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig*** **(Saesneg yn unig):**
www.nationalarchives.gov.uk/records/research-guides/maps-bomb-census-survey.htm

# Tasg 3
# Yr Ail Ryfel Byd a Symud Pobl o'u Cynefin

## GWEITHGAREDDAU DYSGU YCHWANEGOL

### *Ysgrifennu llythyr adre*

Ar ôl iddyn nhw gael eu symud, byddai'r plant yn anfon cardiau post a llythyr adre i'w rhieni, gan ddweud eu hanes a sôn am y pethau yr oedden nhw wedi bod yn eu gwneud.

**Dychmygwch eich bod yn faciwî a'ch bod wedi teithio i rywle newydd ymhell o'ch cartref. Ysgrifennwch lythyr at eich rhieni.**
Yn gyntaf, bydd angen i chi benderfynu o ble rydych yn teithio ac i ble. Gan ddefnyddio map o Gymru, ceisiwch weld y mannau a oedd yn cael eu hystyried yn beryglus (ardaloedd dwys eu poblogaeth, dinasoedd) a'r ardaloedd hynny a oedd yn cael eu hystyried yn ddiogel (cefn gwlad). Bydd hyn yn dangos o ble y byddai'r faciwîs wedi dod, mae'n debyg, ac i ble y bydden nhw o bosibl wedi cael eu hanfon.

**Bydd angen i chi ddefnyddio mapiau 4ydd argraffiad yr Arolwg Ordnans sydd ar gael ar wefan Casgliad y Werin Cymru er mwyn cael gwybod sut le oedd Cymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd.**

- Dylech ystyried cynnwys y wybodaeth hon yn eich llythyr:
- Ystyriwch fanteision ac anfanteision bod yn faciwî.
- Pa fath o daith fyddech chi wedi'i chael.
- Y teulu rydych chi'n byw gydag ef yn awr a'ch hiraeth am eich cartref.
- Efallai y gallech esbonio beth sy'n wahanol yn eich ffordd newydd o fyw.
- Beth sy'n gwneud y wlad yn wahanol i'r ddinas e.e. yr awyr iach, anifeiliaid, y synau?
- Ydych chi wedi gwneud ffrindiau newydd?

### *Dyma ychydig o weithgareddau dilynol eraill posibl:*

- Ysgrifennwch restr o'r pethau y byddech yn mynd â nhw gyda chi pe baech chi'n faciwî. Efallai y gallech feddwl pa bethau y byddai ***angen*** i chi fynd â nhw, a beth y byddech ***eisiau*** mynd â nhw. (Er enghraifft, esgidiau cerdded cryf, mwgwd nwy, bisgedi sych, eich hoff dedi...).
- Trafodwch – Pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw'r llythyrau yn y casgliad cyrchoedd awyr, fel ffynonellau hanesyddol?
- Ysgrifennwch ateb i un o'r llythyrau rydych wedi'u hastudio.

**Faciwîs – dolenni allanol a rhagor o waith darllen**

***Rhagor o wybodaeth am* Operation Pied Piper** ***(Saesneg yn unig)***
**http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk/8229175.stm**
**www.jstor.org/stable/4467219**

***Rhagor o wybodaeth am faciwîs yng Nghymru (Saesneg yn unig)***
**www.bbc.co.uk/wales/history/sites/themes/periods/ww2_evacuees.shtml**

# Tasg 4
## Yr Ail Ryfel Byd a Dogni

## GWEITHGAREDDAU DYSGU YCHWANEGOL

**Archwiliwch y Casgliad Ryseitiau ar wefan Casgliad y Werin Cymru. Dilynwch y ddolen isod.**
**www.casgliadywerincymru.co.uk/collections/377867**

**Ewch i'ch archifdy lleol i ddod o hyd i ragor o ryseitiau o'r Ail Ryfel Byd a hefyd i gael gwybod rhagor am ddogni yn eich ardal.**

- Gall y disgyblion ysgrifennu bwydlen o'r Ail Ryfel Byd ar gyfer y diwrnod, gan ddefnyddio cynhwysion wedi'u dogni. Yna, gall y disgyblion ysgrifennu dyddiadur am y pethau y maen nhw wedi'u bwyta mewn diwrnod a chymharu'r ddau.
  Faint o siwgr sydd yn y ddwy fwydlen?
  Faint o fraster?
  Faint o ffibr?
  Faint o lysiau?
  Faint gostiodd eu bwydlen?
- Dewiswch un o'r ryseitiau o'r Ail Ryfel Byd oddi ar eu bwydlen a'i gwneud hi.

**Gweithgaredd dogni bwyd ar gyfer mis Medi.**

- Gall y disgyblion ddilyn y cyfarwyddiadau yn *Nhaflen Cnwd Ffrwythau Gwyllt* Casgliad Ail Ryfel Byd Caerdydd.
- Chwilio am rysáit ffrwythau gwyllt perthnasol o'r Ail Ryfel Byd yn eu harchif leol.
- Cyfrifo cost gwneud y rysáit.
- Coginio’r rysáit a'i mwynhau!

***Dyma ychydig o weithgareddau dilynol eraill posibl:***

- Gallai'r disgyblion ddysgu gwau. Gallent i gyd wau darn bach o sgarff yr un. Yna gellid gwnïo'r darnau at ei gilydd i greu 'sgarff i'r milwyr, morwyr a'r llu awyr' sy'n ymladd ar y ffrynt.
- Gallai'r disgyblion baratoi bocs o'r nwyddau cymorth a'u hanfon at elusen sydd ar hyn o bryd ynghanol gwrthdaro yn rhywle yn y Byd. Bydd hyn yn cymharu'r gwrthdaro cyfoes â'r Ail Ryfel Byd.

## Arddangosfa

**Gall y disgyblion greu casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru, gan arddangos ryseitiau'r Ail Ryfel Byd. Gallant hefyd gynnwys copïau digidol o arteffactau dogni'r Ail Ryfel Byd o'u harchifdy lleol.**

# Tasg 5

## Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop

# GWEITHGAREDDAU DYSGU YCHWANEGOL

**Ewch i'ch archif a'ch amgueddfa leol i chwilio am luniau o ddiwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop yn eich ardal.**

Camwch yn ôl i'r gorffennol ac ysgrifennwch lythyr at ffrind a oedd wedi dod i'ch ardal chi yn faciwî yn ystod y rhyfel. Mae eich ffrind wedi mynd adref erbyn hyn. Disgrifiwch ddiwrnod eich parti Buddugoliaeth yn Ewrop iddyn nhw. Casglwch y dystiolaeth cyn i chi ysgrifennu eich llythyr. Gallwch ddefnyddio'r lluniau sydd ar wefan Casgliad y Werin Cymru, lluniau o'ch archifdy lleol, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth arall y gallwch ddod o hyd iddi'n lleol. Y mwyaf o dystiolaeth fydd gennych, y gorau fydd eich llythyr!

**Yn eich llythyr, gallech gynnwys:**

- Beth wnaethoch chi ei wisgo i'r parti?
- Oedd yna gerddoriaeth?
- Pa fath o fwyd gawsoch chi? Cofiwch fod bwyd yn dal i gael ei ddogni!
- Wnaethoch chi chwarae gemau?
- Pa addurniadau oedd gennych chi yn eich parti?
- Sut rydych chi'n teimlo nawr bod y rhyfel ar ben?

**I gael gwybod sut roedd pobl yn teimlo, gallai'r disgyblion:**

- Ymweld â'u cofeb ryfel leol i'w helpu i ddeall bod llawer o bobl yn eu hardal wedi colli eu bywydau.
- Ymweld â'u harchifdy lleol a gofyn am lythyrau neu erthyglau papur newydd sy'n gysylltiedig â Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop. Yna, gall y disgyblion archwilio'r neges yn y dogfennau archif drwy wneud y canlynol:

  Amlygu'n goch y geiriau a'r ymadroddion sy'n awgrymu hapusrwydd.
  Amlygu'n las y geiriau a'r ymadroddion sy'n awgrymu rhyddhad.
  Amlygu'n wyrdd y geiriau a'r ymadroddion sy'n awgrymu tristwch.

Bydd yr ymarfer hwn yn help i'r disgyblion ysgrifennu eu llythyr eu hunain.

**Trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth – Gall y disgyblion drafod sut mae'r parti Buddugoliaeth yn Ewrop yn cymharu â dathliad neu barti maen nhw wedi bod iddo'n ddiweddar.**

## *Dyma ychydig o weithgareddau dilynol eraill posibl:*

- Ail-greu parti Diwrnod Buddugoliaeth y Ewrop yn eich ystafell ddosbarth. Efallai y gallai eich amgueddfa leol eich helpu drwy ddarparu gwrthrychau trin a thrafod ar gyfer y dathliad a hyd yn oed ychydig o ddillad.

### Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop – Dolenni allanol a rhagor o waith darllen

***Rhagor o wybodaeth am Ddiwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop** (Saesneg yn unig):*
www.bbc.co.uk/schools/primaryhistory/world_war2/the_war_ends/

# Tasg 1
# Prydain a dechrau'r Ail Ryfel Byd

**Dechreuodd yr Ail Ryfel Byd ddydd Sul 3 Medi 1939 am 11am.**

## Pam y dechreuodd y rhyfel?

Ym mis Ionawr 1933, daeth Adolf Hitler i rym yn yr Almaen. Ar unwaith, fe ddechreuodd herio Cytuniad Versailles a mabwysiadu polisi tramor ymosodol, a arweiniodd at ryfel. Mae rhai haneswyr yn dadlau mai Prydain a Ffrainc oedd ar fai am yr Ail Ryfel Byd oherwydd na wnaethon nhw sefyll eu tir yn erbyn Hitler.
***Mae rhagor o wybodaeth am Gytuniad Versailles yma** (Saesneg yn unig):*
www.bbc.co.uk/schools/gcsebitesize/history/mwh/ir1/thetreatyrev1.shtml

## Beth oedd y polisi 'dyhuddo'

Yn ystod yr 1930au, dilynodd Prydain a Ffrainc bolisi **dyhuddo** tuag at yr Almaen. Er mwyn cadw'r heddwch, fe roeson nhw i Adolf Hitler yr hyn yr oedd ei eisiau arno. Felly, pam wnaeth Prydain a Ffrainc ddal i ildio i ofynion Hitler?
Roedd 'dyhuddo' yn seiliedig ar y syniad bod Hitler yn gofyn am bethau rhesymol ac, ar ôl bodloni ei ofynion rhesymol, roedd pobl yn meddwl y byddai'n rhoi'r gorau i fynnu rhagor a defnyddio'i rym.

**Roedd llawer o resymau gan Brydain dros ddyhuddo Hitler, ond dyma'r prif resymau:**
Roedd **pobl Prydain am gael heddwch** – fydden nhw ddim wedi bod o blaid rhyfel ym 1938 ac roedd Neville Chamberlain, Prif Weinidog Prydain ar y pryd, yn cofio **cyflafan ofnadwy'r Rhyfel Byd Cyntaf**; roedd yn meddwl y byddai rhyfel arall yn dinistrio gwareiddiad.
**Roedd Chamberlain am weld yr Almaen yn gryf** er mwyn iddi allu rhwystro'r comiwnyddion yn Rwsia rhag ehangu.
**Nid oedd lluoedd arfog Prydain yn barod am ryfel.**
**Roedd llawer o bobl yn edmygu Hitler**. Ym 1938, mewn cylchgrawn yn America, *Time*, cafodd ei alw'n 'Ddyn y Flwyddyn'.
Roedd llawer o'r pethau roedd **Hitler yn cwyno amdanyn nhw ar y pryd yn ymddangos yn gwynion rhesymol** yn enwedig o ran Cytuniad Versailles.
***Rhagor o wybodaeth am y rhesymau dros ddechrau'r Ail Ryfel Byd** (Saesneg yn unig)*:
www.bbc.co.uk/schools/gcsebitesize/history/mwh/ir1/whowastoblamerev3.shtml
www.bbc.co.uk/schools/gcsebitesize/history/mwh/ir1/whowastoblamerev4.shtml

## Adolf Hitler yn mynd gam yn rhy bell!

Mae'n hawdd dadlau bod y camau a gymerwyd gan Hitler wedi gwthio Ewrop, a oedd yn awyddus iawn i fod yn rhesymol, i fynd i ryfel. Pan wnaeth Hitler oresgyn Tsiecoslofacia a Gwlad Pwyl ym 1939, roedd yn mynd gam ymhellach na chywiro 'camgymeriadau' Cytuniad Versailles. Ym mis Medi 1939, aeth Prydain a Ffrainc i ryfel â'r Almaen. Roedden nhw am helpu Gwlad Pwyl ar ôl i'r Almaen ei goresgyn, ond roedden nhw'n rhy hwyr. Roedd yr Almaen eisoes wedi meddiannu Gwlad Pwyl. Erbyn haf 1940, roedd yr Almaen wedi concro'r Iseldiroedd, Gwlad Belg, Ffrainc, Denmarc a Norwy.
***Rhagor o wybodaeth am y gwledydd wnaeth ymladd yn y rhyfel** (Saesneg yn unig):*
www.bbc.co.uk/schools/primaryhistory/world_war2/world_at_war/

# Tasg 1
## Dechrau'r Ail Ryfel Byd

**SUT OEDD POBL CYMRU'N TEIMLO AM DDECHRAU'R RHYFEL?**

Ar ôl misoedd pan oedd y tensiwn yn cynyddu yn Ewrop, roedd ymateb pobl Cymru i ddechrau'r Ail Ryfel Byd yn gymysg.

Roedd rhai pobl yn teimlo **rhyddhad**. Mae hyn i'w weld yn y dyfyniad isod o'r *Western Mail* a gyhoeddwyd ar 4 Medi 1939.
***"The general feeling was that at last, after months of suspense and nervous tension, the country knew exactly where it stood."***

Roedd Harry Highman o Gasnewydd yn fachgen ifanc ar y pryd ac mae'n cofio'r **cyffro.**
***I't was wonderful, exciting, we were going to hear guns firing. We were always running around playing soldiers. So the war, to us, was something to look forward to."***

Ond i lawer o bobl eraill, serch hynny, mater o **dderbyn y sefyllfa** oedd hi. Fel y dywedodd un dyn di-waith yn y *Penarth Times*,
***I"m just waiting for the call-up. I suppose we'll all be drawing army pay before long."***

**Mae'r darnau hyn wedi'u copïo o *www.bbc.co.uk/wales/history/sites/themes/periods/ww2-when-war-broke-out.shtml* ar 11.02.13.**

# Tasg 2

# Cyrchoedd Awyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd

### Pa bryd y digwyddodd y cyrchoedd awyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd yng Nghymru?

Disgynnodd Ffrainc ym mis Mehefin 1940 ac roedd hyn yn golygu bod Cymru a'r Deyrnas Unedig bellach ar reng flaen y gorllewin. Caerdydd oedd y lle cyntaf yng Nghymru i gael ei fomio. Ar ôl y cyrch awyr cyntaf yng Nghaerdydd, targedwyd porthladdoedd a safleoedd diwydiannol ledled Cymru. Ar ôl 1941, anfonwyd llu awyr yr Almaen i baratoi i oresgyn Rwsia ar y Ffrynt Dwyreiniol ac roedd llai o fomio'n digwydd yng Nghymru ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Wedi dweud hynny, digwyddodd cyrchoedd awyr, bob hyn a hyn tan 1943.

### Ymhle y digwyddodd y cyrchoedd awyr gwaethaf yng Nghymru?

Abertawe a ddioddefodd y cyrch bomio dwysaf yng Nghymru, ym mis Chwefror 1941. Parhaodd 'Blits Abertawe' dair noson a dinistriwyd rhannau helaeth o ganol y dref.
**Mae'r lluniau i'w gweld yma:** **www.casgliadywerincymru.co.uk/collections/376966** Wedi dweud hynny, yng Nghaerdydd y gwelwyd y nifer fwyaf o ymosodiadau cyson yng Nghymru.

### Beth oedd yn digwydd yn ystod cyrch awyr?

**Canllawiau'r Llywodraeth a'r *ARP*.**
Mor gynnar â 1935, roedd swyddogion y llywodraeth yn trafod y paratoadau ar gyfer cyrchoedd awyr; ym 1935, cyhoeddodd Stanley Baldwin gylchlythyr i bob awdurdod lleol. Galwyd y cylchlythyr yn *Air Raid Precautions* ac roedd yn gwahodd pob awdurdod lleol i wneud cynlluniau amddiffynnol rhag rhyfel. Yn sgil cylchlythyr yr ARP, adeiladwyd llochesi awyr mewn rhai ardaloedd. Ym 1937, crëwyd gwasanaeth y Wardeniaid Cyrchoedd Awyr, recriwtiwyd 200,000 o wirfoddolwyr (mae rhagor o fanylion i'w gweld o dan *Air Raid Wardens* isod.)
**Mae enghraifft o loches cyrch awyr yn cael ei hadeiladu yng Nghaerdydd i'w gweld yma:**
**www.casgliadywerincymru.co.uk/items/1255**
Er gwaethaf cylchlythyr yr ARP ym 1935, ni chafwyd ymateb gan lawer o'r awdurdodau lleol. Ym 1938, fodd bynnag, roedd ymdeimlad newydd o frys. Roedd yr ymdeimlad newydd hwn o frys oherwydd bod y tensiwn rhyngwladol yn cynyddu yn sgil Cytundeb Munich ac ymddygiad yr Almaen yn Sudetenland yn Tsiecoslofacia.
**Rhagor o wybodaeth am Gytundeb Munich a Sudetenland (Saesneg yn unig):**
**http://spartacus-educational.com/2WWmunich.htm**

**http://www.bbc.co.uk/schools/gcsebitesize/history/mwh/ir1/chamberlainandappeasementrev2.shtml**

O ganlyniad i'r argyfwng ym 1938, rhoddodd Neville Chamberlain Syr John Anderson yn gyfrifol am yr ARP. Un o'r datblygiadau pwysig a ddeilliodd o'r penodiad hwn oedd datblygu Lloches Anderson, lloches fforddiadwy i amddiffyn pobl rhag cyrchoedd awyr.
Rhagor o wybodaeth am y Cyrchoedd Awyr a'r Llochesau (Saesneg yn unig):
**http://spartacus-educational.com/2WWshelters.htm**

**Y Blacowt**
O fis Medi 1939 ymlaen, roedd yn rhaid i bawb ym Mhrydain ddilyn canllawiau'r blacowt. Roedd hyn yn golygu, ar ôl iddi dywyllu, bod yn rhaid gorchuddio pob golau, gorchuddio ffenestri, ac os nad oedd pobl yn cydymffurfio, bydden nhw'n wynebu dirwy sylweddol. Byddai pobl yn defnyddio bylbiau golau du ac yn gorchuddio goleuadau ceir. **Mae rhagor o luniau i'w gweld yma:**
**www.casgliadywerincymru.co.uk/items/1240**
**www.casgliadywerincymru.co.uk/items/8948**
**Wardeniaid Cyrchoedd Awyr**
*Sefydlwyd y 'Paratoadau Rhag Cyrchoedd Awyr' (ARP) ymhell cyn y rhyfel, ond ychwanegwyd at nifer cyfrifoldebau'r wardeiniaid o 1939 ymlaen. Roedd gan wardeiniaid ARP wahanol gyfrifoldebau gan gynnwys:*
*sicrhau nad oedd unrhyw oleuadau i'w gweld yn ystod y 'blacowt'*
*rhoi mygydau nwy a llochesi cyrchoedd awyr i bobl*
*canu'r corn i rybuddio bod cyrch awyr ac i ddweud bod y cyrch ar ben*
*chwilio am bobl a oedd wedi goroesi'r cyrchoedd bomio*
*cofnodi gwybodaeth am faint a lleoliad bomiau a difrod cysylltiedig'.*
**www.nationalarchives.gov.uk/records/research-guides/maps-bomb-census-survey.htm** **(Saesneg yn unig)**

# Tasg 3
# Yr Ail Ryfel Byd a Symud Pobl o'u Cynefin

## Pa bryd y cafodd pobl eu symud o'u cynefin yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

Cafodd llawer o faciwîs eu symud yn ystod camau cyntaf yr Ail Ryfel Byd ac roedd cynlluniau wedi'u gwneud ar gyfer hyn cyn i'r rhyfel ddechrau. Yr enw ar y cynllun i symud pobl o'u cynefin oedd *Operation Pied Piper* a'r dyn a oedd yn gyfrifol am ei goruchwylio oedd Syr John Anderson. Yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y Rhyfel, serch hynny, nid oedd unrhyw gyrchoedd bomio mawr ym Mhrydain ac felly, erbyn 1940, roedd llawer o'r faciwîs wedi cael eu hanfon adref eto. Erbyn mis Gorffennaf roedd llu awyr yr Almaen wedi newid ei strategaeth a dechreuodd y cyrchoedd awyr ddigwydd yn amlach yn y dinasoedd mawr. Yna, cafwyd yr ail don o faciwîs ledled y Deyrnas Unedig.

Rhwng mis Medi 1940 a Rhagfyr 1941, roedd dros 1,250,000 wedi cael eu symud o'u cynefin.

## Pwy oedd y faciwîs hyn?

Pobl agored i niwed, er enghraifft **plant**, **mamau beichiog** a **phobl anabl** a gafodd eu symud. Roedd plant ysgol yn flaenoriaeth. Bydden nhw'n yn aml yn teithio'n syth o'r ysgol, ar y trên gan amlaf, gyda'u hathrawon i ardaloedd mwy diogel yn y wlad. Cafodd tua 3.5 miliwn o bobl, plant gan mwyaf, eu symud o'u cynefin yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

## Ble y digwyddodd hyn?

Symudwyd plant o'r **dinasoedd**, lle'r oedd y cyrchoedd awyr fwyaf tebygol o ddigwydd, a'u symud i'r **wlad** i ardaloedd a oedd yn cael eu hystyried yn ddiogel ar y pryd. Rhannodd Pwyllgor Anderson y wlad yn 3 ardal – **ardaloedd i'w gwagio, ardaloedd niwtral** ac **ardaloedd derbyn**. Anfonwyd rhai plant i fyw gydag aelodau o'u teulu, ond roedd yn rhaid i blant eraill fynd i fyw gyda phobl a oedd yn gwbl ddieithr iddyn nhw. Roedd yn adeg gyffrous i rai, yn enwedig y rheini nad oedden nhw erioed wedi gweld buwch o'r blaen! Roedd ganddyn nhw deimladau cymysg, roedd rhai'n drist wrth adael eu teuluoedd a'u cartrefi, ond roedd rhai hefyd yn llawn cyffro wrth gael gweld llefydd newydd. Anfonwyd nifer fach o blant dramor hyd yn oed, i wledydd fel Canada, Awstralia a'r Unol Daleithiau.

## Y Faciwîs a Chymru

Roedd llawer o'r ardaloedd 'derbyn' yng Nghymru. Roedd yr ardaloedd 'derbyn' yn cael eu hystyried yn gymharol ddiogel rhag bomwyr yr Almaen. Anfonwyd tua 110,000 o blant yn faciwîs i Gymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cafodd plant eu symud hefyd o ardaloedd trefol yng Nghymru, fel Caerdydd ac Abertawe i ardaloedd gwledig fel Ceredigion. I Sir Forgannwg y daeth y nifer fwyaf o faciwîs o bob rhan o'r Deyrnas Unedig; croesawyd tua 33,000 o blant i'r sir.

## I glywed hanes personol un o'r faciwîs a ddaeth i Gymru, darllenwch hanes Jimmy Rithchie ar lein, '*I am a Welshman*'.

Dilynwch y ddolen i broject yr Imperial War Museum, ***Your Past My Future*** (Saesneg yn unig).

http://archive.theirpast-yourfuture.org.uk/upload/package/52/Flash%20Site/index.html

- Gallwch wylio'r rhagarweiniad neu neidio'n syth i'r stori.
- Wedyn cliciwch ar ***Personal Stories.***
- Wedyn cliciwch ar **'*I am a Welshman*'** i ddarllen stori Jimmy Ritchie.
- Gallwch **argraffu** tudalennau o stori Jimmy ar gyfer y dosbarth.

# Tasg 4

# Yr Ail Ryfel Byd a Dogni

## GWYBODAETH GEFNDIR

### Pam y cafodd nwyddau eu dogni yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

Cafodd nwyddau eu dogni yn ystod yr Ail Ryfel Byd oherwydd daeth yn fwyfwy anodd mewnforio nwyddau. Oherwydd bod llai o nwyddau'n cael eu mewnforio, roedd angen i'r llywodraeth wneud rhywbeth i reoli faint ohonyn nhw oedd yn cael eu defnyddio ac i rannu'r hyn a oedd ar gael rhwng y boblogaeth. Bob wythnos byddai gan bawb yn y Deyrnas Unedig nifer benodol o 'dalebau' i brynu nwyddau oedd wedi'u dogni. Byddai perchnogion siopau'n cael eu herlyn pe baen nhw ddim yn dilyn y rheolau ac roedd arolygwyr bwyd yn sicrhau bod pawb yn cadw at y drefn.

### Pa bryd y cafodd nwyddau eu dogni yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf?

Cafodd petrol ei ddogni ym 1939 ac ym mis Ionawr 1940, dognwyd cig moch, menyn a siwgr. Yna, dognwyd cig, pysgod, te, jam, bisgedi, grawnfwyd brecwast, caws, wyau, llaeth a ffrwythau tun. Cafodd dillad eu dogni o 1941 ymlaen.

### Beth gafodd ei ddogni yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

**Dyma rai o'r bwydydd gafodd eu dogni:**
cig moch, menyn, siwgr, cig, pysgod, te, jam, bisgedi, grawnfwyd brecwast, caws, wyau, llaeth a ffrwythau tun.
**Dyma rai o'r nwyddau eraill a gafodd eu dogni:**
Petrol, dillad.

### Ar bwy yr oedd dogni'n effeithio yng Nghymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd a sut yr oedd hyn yn effeithio ar eu bywyd bob dydd?

**Effaith dogni bwyd.**
Yng Nghymru, fel mewn rhannau eraill yn y Deyrnas Unedig, mae rhai'n meddwl bod deiet pobl yn iachach yn ystod y dogni. Wedi dweud hynny, roedd yn haws cael cig, wyau a menyn mewn ardaloedd gwledig heb dalebau. Ond, pe bai'r Arolygydd Bwyd yn cael gwybod bod pobl yn taro bargeinion anghyfreithlon neu'n prynu a gwerthu ar y 'farchnad ddu', roedd posibilrwydd go iawn y bydden nhw'n cael eu herlyn. Fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig, roedd plant yng Nghymru yn cael eu trin yn wahanol i oedolion; roedd ganddyn nhw'r hawl i gael bwydydd ychwanegol a oedd yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer twf, er enghraifft llaeth a sudd oren.

***Palwch dros Fuddugoliaeth***
Roedd pobl yn cael eu hannog i dyfu eu bwyd eu hunain trwy ymgyrch y llywodraeth, *Dig for Victory*. Cafodd gerddi blodau a lawntiau eu troi'n erddi llysiau ac roedd pobl yn cael eu hannog i gadw rhandiroedd.

**Gwneud y Tro a Thrwsio**

Pan gafodd dillad eu dogni ym mis Mehefin 1941, roedd system bwyntiau'n caniatáu i bobl brynu un set gwbl newydd o ddillad bob blwyddyn. Er mwyn arbed defnydd, byddai trowsus dynion yn cael eu gwneud heb odre (*turn-ups*) ar y gwaelod, ac roedd sgertiau menywod yn fyr ac yn syth. Doedd dim ffrils ar ddillad isaf menywod. Roedd cylchgronau menywod yn llawn cynghorion doeth am sut i ailddefnyddio defnyddiau a dillad. Roedd sanau sidan yn brin, felly byddai merched yn defnyddio brownin grefi i liwio eu coesau. Weithiau, byddai ffrind yn tynnu llinell i lawr cefn eu coesau gan ddefnyddio pensil aeliau i greu'r sêm!

# Tasg 5
## Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop

## GWYBODAETH GEFNDIR

### Pa bryd oedd Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop
Ildiodd yr Almaen yn ddiamod ar 7 Mai 1945, a'r diwrnod wedyn, dathlwyd diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (*VE day*). Roedd y rhyfel yn Ewrop wedi dod i ben.

### Beth ddigwyddodd ar ddiwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop?
Roedd diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop ar 8 Mai. Mae'n coffáu diwedd yr Ail Ryfel Byd yn Ewrop pan ildiodd lluoedd Natsïaid yr Almaen i luoedd y Cynghreiriaid.

Canwyd clychau'r eglwysi ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. Roedd yr eglwysi a'r capeli'n orlawn wrth i bobl fynd i ddiolch, ar ôl 6 mlynedd hir o ddioddef, bod buddugoliaeth wedi dod o'r diwedd. Roedd hi'n bryd meddwl am y miliynau o fywydau a gollwyd, y caledi a ddioddefwyd a diolch am y rheini a oedd wedi goroesi.

Yng Nghymru a ledled Deyrnas Unedig, casglodd pobl ar y strydoedd, llawer ohonynt wedi'u gwisgo mewn coch, glas a gwyn, i ganu a dawnsio, gan gwtsho'i gilydd, yn falch bod y rhyfel drosodd o'r diwedd. Penderfynodd Prydain a Gorllewin Ewrop ddathlu diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop ar 8 Mai drwy gynnal partïon stryd a gorymdeithiau gwisg ffansi i'r plant. Yn Rwsia, maen nhw'n dathlu diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop ar 9 Mai, y dyddiad y daeth y rhyfel i ben yn swyddogol.

Roedd bwyd yn dal i gael ei ddogni, ac felly, roedd yn rhaid i bobl rannu eu cwpons i brynu bwyd parti. Roedd llawer o'r addurniadau ar gyfer y partïon stryd wedi'u gwneud â llaw.

### Cyhoeddiad swyddogol gan Winston Churchill
Cyhoeddodd y Prif Weinidog Winston Churchill yn swyddogol fod Natsïaid yr Almaen wedi ildio ac fe gafodd y neges ei darlledu o gwmpas y byd i filwyr Prydain. Diolchodd i Dduw ac yna aeth i ymuno â'r teulu Brenhinol ar falconi palas Buckingham a dywedodd wrth y dorf. "*This is your victory… Advance Britannia*".

Dilynwch y ddolen hon i glywed Winston Churchill yn cyhoeddi diwedd yr Ail Ryfel Byd (Saesneg yn unig).

http://news.bbc.co.uk/onthisday/hi/dates/stories/may/8/newsid_3580000/3580163.stm

# Rhagor o waith darllen

## Dolenni allanol cyffredinol a rhagor o waith darllen

**Casgliadau eraill sy'n gysylltiedig â'r Ail Ryfel Byd ar Gasgliad y Werin Cymru**
**www.casgliadywerincymru.co.uk/collections/377425**

**Rhagor o wybodaeth thematig am Gymru a'r Ail Ryfel Byd**
**www.bbc.co.uk/wales/history/sites/themes/ww2.shtml** (Saesneg yn unig)

**Canllawiau thematig i'r Ail Ryfel Byd yn y Deyrnas Unedig ar gyfer ysgolion cynradd**
**http://myglyw.org.uk/index.php?id=3617**
**www.bbc.co.uk/schools/primaryhistory/world_war2/** (Saesneg yn unig)

**Rhagor o wybodaeth thematig am y Deyrnas Unedig a'r Byd yn ystod yr Ail Ryfel Byd**
**http://spartacus-educational.com/2WW.htm** (Saesneg yn unig)

**I chwilio am atgofion pobl am yr Ail Ryfel Byd o bob cwr o'r Deyrnas Unedig**
**www.bbc.co.uk/history/ww2peopleswar/** (Saesneg yn unig)

**Chwiliwch am linell amser ragorol ar gyfer yr Ail Ryfel Byd**
**www.bbc.co.uk/history/ww2peopleswar/timeline/** (Saesneg yn unig)

**Rhagor o wybodaeth a gweithgareddau dysgu am y Ffrynt Cartref yn y Deyrnas Unedig**
**www.nationalarchives.gov.uk/education/homefront/** (Saesneg yn unig)

**I gael cymorth gan Dîm Addysg Casgliad y Werin Cymru, cysylltwch ag**
Angharad Williams - Swyddog Addysg
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
E-bost: angharad.williams@rcahmw.gov.uk
Ffôn: 44 (0) 1970 621 248

## Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy lleol isod:

Archifau Gwent enquiries@gwentarchives.gov.uk Ffôn: 01495 353363

Archifau Morgannwg glamro@caerdydd.gov.uk Ffôn: 029 2087 2200

Archifau Prifysgol Abertawe archives@swansea.ac.uk Ffôn: 01792 295021

Archifau Prifysgol Aberystwyth archives@aber.ac.uk Ffôn: 01970 628593

Archifau Prifysgol Bangor archives@bangor.ac.uk Ffôn: 01248 382966

Archifau Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant rodericbownlibrary@tsd.ac.uk Ffôn: 01248 38296

Archifau Ynys Môn archifdy@ynysmon.gov.uk Ffôn: 01248 751930

Archifdy Ceredigion archives@ceredigion.gov.uk Ffôn: 01970 633697/633698

Archifdy Cymdeithas Hynafiaethau Castell-nedd westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn: 01639 620139

Archifdy Gwynedd, Meirionnydd archifau.dolgellau@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01341 424 682

Archifdy Gwynedd, Caernarfon archifau.caernarfon@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01286 679095

Archifdy Sir Ddinbych archif@sirddinbych.gov.uk Ffôn: 01824 708250

Archifdy Sir Benfro record.office@pembrokeshire.gov.uk Ffôn: 01437 775456

Archifdy Sir y Fflint archives@siryfflint.gov.uk Ffôn: 01244 532364

Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam archives@wrecsam.gov.uk Ffôn 01978 297480

Gwasanaeth Archifau Conwy archifau.archives@conwy.gov.uk Ffôn 01492 577550

Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Abertawe westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn 01792 636589

Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin archives@sirgar.gov.uk Ffôn: 01267 228232

Prifysgol Caerdydd, Casgliadau Arbennig ac Archifau keelanp@caerdydd.ac.uk Ffôn: 029 2087 5678

Swyddfa Archifau Sir Powys archives@powys.gov.uk Ffôn: 01597 826088

## Gallwch ddod o hyd i ragor o adnoddau ar-lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.

**Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn www.archiveswales.org.uk/**

**Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn www.culture24.org.uk/places+to+go/wales (Saesneg yn unig)**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru: www.llgc.org.uk/cy/**

**Casgliad y Werin Cymru: www.casgliadywerincymru.co.uk**

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: www.cbhc.gov.uk**

**Coflein: www.coflein.gov.uk**

**Prydain oddi Fry: www.britainfromabove.org.uk/cy**